

BETH YW'R GWIR AM IESU GRIST?

Nodyn i'r siaradwr:

Pwysleisia rôl ganolog Iesu ym mhwrpas Duw. Gan ddefnyddio tact, trafoda rai syniadau anghywir sy'n gyffredin yn dy ardal di. Anoga'r gwrandawyr i ddysgu mwy am Iesu drwy ddod i Goffadwriaeth ei farwolaeth

DYDY LLAWER DDIM YN GWYBOD Y GWIR AM IESU (4 mun.)

Mae llawer yn cydnabod bod Iesu'n un o'r bobl fwyaf dylanwadol mewn hanes (*w05-E 3/15 3-4 ¶2-3; g16.5-E 3*)

Roedd llawer yn y ganrif gyntaf wedi camddeall pwy oedd Iesu mewn gwirionedd [**Darllen Mathew 16: 13, 14**] (*w01-E 12/15 3-4 ¶2*)

Roedd rhai yn disgwyl iddo fod yn ymgyrchwr gwleidyddol, neu'n philanthropydd, neu iddo weithredu fel barnwr (Lc 12:13; In 6:15, 26)

Heddiw, mae llawer o dan yr argraff anghywir mai dim ond dyn da oedd Iesu, dim ond yn broffwyd, neu yn ddiwygiwr

Mae miliynau sy'n honni bod yn Gristnogion yn credu mai'r Duw Hollalluog yw Iesu

Beth yw ateb y Beibl i'r cwestiynau canlynol? Pwy yw Iesu, pam daeth i'r ddaear, a beth mae'n ei wneud nawr?

BETH YW'R GWIR AM IESU? (12 mun.)

Mae gan y Beibl gofnod dibynadwy o bersonoliaeth unigryw Iesu, o'i ddysgeidiaethau a'i weithredoedd, sy'n profi nad oedd yn ddyn cyffredin (Mth 7:28, 29; 9:35, 36; Mc 6:2)

Roedd ganddo rinweddau sy'n apelio at bawb (*gy-E 317*)

Gwnaeth ei ddysgeidiaethau helpu ei wrandawyr i glosio at Dduw (Mth 6:9-15)

Cyflawnodd nifer fawr o broffwydoliaethau a gafodd eu cofnodi ganrifoedd ynghynt (*bh 199-201*)

Nid oedd yn honni mai ef oedd Duw ei hun; doedd ei ddisgyblion cynnar ddim yn credu hynny chwaith [**Darllen Mathew 16:15, 16**] (In 10:36)

Rhoddodd Iesu bob clod i Dduw am ei ddysgeidiaethau a'i weithredoedd pwerus (In 7:16; 14:10)

Roedd Iesu yn ysbryd yn y nefoedd cyn iddo ddod i'r ddaear fel bod dynol (In 6:38)

Iesu oedd yr unig un a gafodd ei greu yn uniongyrchol gan Jehofa Dduw; felly, mae'n briodol i'w alw'n "unig-anedig Fab Duw" (In 3:18, *BC*; Col 1:15, 16)

Cafodd ei anfon i'r ddaear i ddysgu'r gwirionedd a chyhoeddi Teyrnas Dduw (Mth 4:17; In 18:37)

Ef oedd y Meseia addawedig, neu'r Crist, a fyddai'n rhoi ei fywyd dros ddynolryw (In 3:16)

Cafodd Iesu ei atgyfodi i fywyd yn y nef, lle rhoddodd Jehofa awdurdod brenhinol iddo (Mth 28:18; Act 2: 32, 33; *cl-E 88-89 ¶6*)

MAE IESU GRIST YN RHEOLWR DELFRYDOL (8 mun.)

Mae dirfawr angen llywodraeth dda ar ddynolryw (Pre 8:9)

Mae gan Iesu'r rhinweddau a'r gallu angenrheidiol i fod yn arweinydd da (*w02-E 3/15 6 ¶4; it-2-E 70 ¶5*)

Dangosodd fod hyd yn oed y tywydd, afiechydon, a marwolaeth yn ildio i'w reolaeth (Mth 8:1-3; Mc 4:39; In 11:43, 44)

Gwrthododd Iesu ymdrechion dynion i'w goroni'n frenin (In 6:14, 15)

Dydy ei Deyrnas ddim yn rhan o system wleidyddol y byd o dan reolaeth Satan (In 18:36; 1In 5:19)

Arhosodd Iesu am amser penodedig Jehofa i sefydlu'r llywodraeth nefol (Heb 10:12, 13)

Mae proffwydoliaethau'r Beibl yn dangos bod Iesu nawr yn rheoli yn y nef fel Brenin Teyrnas Dduw (Mth 24:3-12)

Yn fuan bydd Iesu yn gwneud pethau tebyg i'r hyn a wnaeth pan oedd ar y ddaear ar raddfa fyd-eang (Lc 7:21, 22; Dat 21:3, 4)

Nawr mae pobl ym mhob man yn cael eu gwahodd i fod yn ddinasyddion i lywodraeth Duw (Mth 24:14; 28:19, 20)

DOD I ADNABOD Y GWIR IESU GRIST (6 mun.)

Mae'r gwir am Iesu Grist yn rhodd werthfawr oddi wrth Jehofa Dduw [**Darllen Mathew 16:17**]

Fe gewch chi hapusrwydd a heddwch nawr drwy efelychu esiampl Iesu a rhoi ei ddysgeidiaethau ar waith (Mth 7:24, 25; 11:28-30; 1Pe 2:21)

Mae'r gwir am Iesu yn gallu bod o les iti am byth (In 17:3)

Mae llawer wedi clywed bod Iesu wedi marw droson ni

Sut gall marwolaeth un dyn wneud bywyd tragwyddol yn bosib i lawer?

A all marwolaeth Iesu tua 2,000 o flynyddoedd yn ôl effeithio arnon ni heddiw?

Caiff y cwestiynau hyn eu hateb yng Nghoffadwriaeth marwolaeth Iesu [Dangos y fideo 1 munud 41 eiliad sy'n gwahodd pobl i'r Goffadwriaeth, *Cofio Marwolaeth Iesu*, a chrosawu pawb yn gynnes i ddod]

Gwna hi'n flaenoriaeth i ddod i adnabod y gwir Iesu Grist—darpariaeth Duw ar gyfer bywyd (In 14:6)

[Glyna'n agos wrth yr amlinelliad hwn a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]